RHONDDA CYNON TAF

**<u>Mae gwefan 'Fy Niwrnod I, Fy Newis I' bellach yn fyw.</u>**



Rydyn ni wedi creu'r wefan newydd yma er mwyn gweithio gyda phobl sydd ag anableddau dysgu.

Rydyn ni eisiau rhoi lle i chi ddweud wrthyn ni beth sy'n bwysig i chi.

Rydyn ni hefyd eisiau gwybod sut mae modd i ni wella'r gwasanaethau oriau dydd.

Byddwn ni'n trafod chwe thema dros y chwe wythnos nesaf.



Rydyn ni eisiau clywed gan y bobl ganlynol:

- Pobl sydd ag anableddau dysgu
- Rhieni
- Cynhalwyr

Bydd chwe arolwg yn ymwneud â gwahanol themâu ar y wefan.

Y thema gyntaf yw Dewisiadau a Phenderfyniadau.




[Cliciwch yma er mwyn mynd i wefan 'Fy Niwrnod I, Fy Newis I'.]




Cafodd y wefan ei chreu yn dilyn penderfyniad Aelodau'r Cabinet i gasglu barn a syniadau'r bobl sy'n defnyddio ein gwasanaethau.




Y nod yw helpu i lunio cynllun oriau dydd newydd y bydd pobl yn ei hoffi.







Mae modd llenwi'r arolygon ar-lein, wyneb yn wyneb, mewn sesiwn ar Zoom, dros y ffôn neu drwy ofyn am gopi papur.




Bydd fersiynau Hawdd eu Darllen o'r holl gynnwys ar gael hefyd.



**Meddai'r Cynghorydd Geraint Hopkins, Aelod o'r Cabinet sy'n gyfrifol am Wasanaethau i Oedolion:**

"Nod gwefan newydd 'Fy Niwrnod I, Fy Newis I' yw bod yn adnodd gwerthfawr i bobl sydd ag anableddau dysgu, eu rhieni a'u cynhalwyr. Bydd yn fodd o ymgysylltu'n gyson â nhw er mwyn ein helpu ni i ddeall pa mor effeithiol yw ein gwasanaethau oriau dydd cyfredol, a'r hyn y mae modd i ni ei wella.






Mae modd i chi hefyd roi'ch barn drwy e-bostio: RhaglenDrawsnewidAnableddauDysgu@rctcbc.gov.uk